RHONDDA CYNON TAF

# CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
# IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION YR HINSAWDD

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd a gynhaliwyd ar-lein ar ddydd Iau, 23 Mawrth 2023 am 1pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei recordio ac mae'r manylion i'w gweld yma.

**Roedd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol canlynol yn bresennol:**

Y Cynghorydd C. Leyshon (Cadeirydd)

Y Cynghorydd A Crimmings    Y Cynghorydd R Lewis

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor
Ms Lesley Lawson, Rheolwr Cyflawniad
Mr A Roberts, Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon
Mr C Davies, Rheolwr Materion Ymgynghori a Pholisïau Corfforaethol
Mr L Marenghi, Swyddog Materion Cyflawni a Strategol – Newid yn yr Hinsawdd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd M Norris    Y Cynghorydd J Barton

## 19 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r agenda.

## 20 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2022 yn rhai cywir.

## 21 Cynllun Ymgysylltu â Newid Hinsawdd Rhondda Cynon Taf (2023-2025)

Rhannodd Rheolwr Materion Polisi Corfforaethol ac Ymgynghori wybodaeth am Gynllun Ymgysylltu â Newid Hinsawdd y Cyngor â'r Is-bwyllgor, gan amlinellu sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyfathrebu â rhanddeiliaid, a'u cynnwys nhw, wrth ddatblygu'i ddull o gydweithio er mwyn cyflawni'i dargedau mewn perthynas â'r hinsawdd.

Mae'r cynllun yn pennu sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymgysylltu â thrigolion, ysgolion, busnesau, staff, a'r trydydd sector, gan ystyried ffyrdd o fyw cynaliadwy, codi proffil newid hinsawdd a chodi ymwybyddiaeth o'r materion yma.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r swyddog a chydweithwyr am y gwaith sydd wedi'i gynnal i gynhyrchu'r Cynllun Ymgysylltu sy'n cael ei gyflwyno

i'r Aelodau. Roedd y Cadeirydd yn falch o nodi y bydd Cynllun Ymgysylltu â Newid Hinsawdd RhCT yn ceisio ymgysylltu â thrigolion, ysgolion, busnesau, staff a'r trydydd sector, ac yn cynnwys y gymuned ehangach ac unigolion.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at bwysigrwydd staff y Cyngor, gyda 80% o staff yn byw yn y Fwrdeistref Sirol, gan ganmol y staff hynny am gyfrannu at y targedau uchelgeisiol sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden wedi adleisio sylwadau'r Cadeirydd, gan ddiolch i'r swyddog am yr adroddiad gwych. Roedd yr Aelod o'r Cabinet wedi pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â phobl ifainc, roedd yr Aelod o'r farn y byddai brwdfrydedd y bobl ifainc yma'n rhan allweddol o gyflawni targed y Cyngor. Nododd yr Aelod o'r Cabinet ei bod hi'n falch o weld y bydd pob rhan o'r Awdurdod Lleol yn cydweithio drwy gydol y cynllun.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg wedi canmol y cyfraniad ystyrlon gan staff RhCT, roedd e'n falch o weld bod eu sylwadau a'u hawgrymiadau nhw wedi'u nodi. Roedd yr Aelod o'r Cabinet o'r farn y dylai'r Cyngor geisio dylanwadu ar gyrff y sector cyhoeddus sy'n gweithredu o fewn y Fwrdeistref Sirol, a hynny i gyfrannu at amcanion ehangach i ddatgarboneiddio RhCT.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor wybod i'r Aelod o'r Cabinet bod y Cyngor eisoes yn cydweithio â sefydliadau eraill yn RhCT. Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod gwaith yn cael ei gynnal gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol a Thrafnidiaeth Cymru.

**PENDERFYNODD** Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:

1. Trafod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad a'r dull ymgysylltu arfaethedig;
2. Cymeradwyo'r dull sydd wedi'i amlinelli; a
3. Datblygu'r dull wrth symud ymlaen a chyflawni gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu. Bydd angen cymorth gan staff, i gychwyn bydd hyn wedi'i ddarparu gan y swyddogion cyfrifol penodol, drwy weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid amgylcheddol allweddol.

**22 Y Strategaeth Ddatgarboneiddio Gorfforaethol a'r Cynllun Gweithredu**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor 'Strategaeth Ddatgarboneiddio Gorfforaethol (ddrafft)' a'r 'Cynllun Gweithredu' sefydledig i'r Aelodau. Bydd y cynllun yn nodi amserlen glir wedi'i phennu er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei darged o fod yn Garbon Niwtral erbyn 2030.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad cynhwysfawr. Siaradodd y Cadeirydd am y targedau uchelgeisiol, gan bwysleisio graddfa enfawr gwaith y Cyngor. Esboniodd fod 359 o safleoedd, dros 600 o gerbydau fflyd, 10,829 o staff llawn amser a 423 cilomedr$^2$ o dir.

Roedd y Cadeirydd wedi canmol y syniad o barthau gofal cymdeithasol gan nodi bod gofyn bod ymgeiswyr yn berchen ar gerbyd yn cyfyngu ar nifer y cynhalwyr sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor. Roedd y Cadeirydd hefyd yn falch o nodi y byddai ymgyrchoedd yn y dyfodol yn cynnwys prydau mwy iach mewn ysgolion, cartrefi gofal a swyddfeydd.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg wedi manteisio ar y cyfle i ddiolch i swyddogion am y gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud i lunio Cynllun Gweithredu addas i'r diben ac sy'n hawdd i'w ddefnyddio. Roedd yr Aelod o'r Cabinet wedi nodi y byddai'r Cynllun uchelgeisiol yn ddefnyddiol wrth i drigolion ac Aelodau ddilyn cynnydd y gwaith datgarboneiddio.

**PENDERFYNODD** Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a Strategaeth Ddatgarboneiddio (ddrafft) y Cyngor a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig;
2. Trafod y Strategaeth Ddatgarboneiddio (ddrafft) a'r Cynllun Gweithredu sy'n rhoi cyfle i'r Cyngor:

    a) Bodloni ei dargedau lleihau carbon a gafodd eu cyhoeddi yn Strategaeth Newid Hinsawdd 2022-2025 y Cyngor.

    b) Cyfrannu at yr ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur sydd wedi'u cyhoeddi'n genedlaethol;

3. Cynnal a blaenoriaethu'r ddadl ar ddatgarboneiddio, er mwyn cynyddu a/neu amrywio cwmpas gwaith datgarboneiddio'r Cyngor, a nodi bod angen i bob rhanddeiliad weithio gyda'i gilydd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol; a
4. Derbyn y newyddion diweddaraf ar gynnydd y gwaith a diwygio'r cynllun gweithredu yn ôl yr angen i sicrhau ein bod ni'n parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni'n targedau.

## 23 Cynhyrchu Trydan Dŵr yn Rhondda Cynon Taf

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor, sy'n rhoi trosolwg i'r Is-bwyllgor o adroddiad hyfywedd wedi'i ddiweddaru, a gwblhawyd gan gwmni arbenigol, ar gyfer datblygu cynlluniau pŵer trydan dŵr ar raddfa fach o fewn ffiniau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cafodd yr adroddiad eang, hanesyddol yma ei adolygu'n fewnol yn ddiweddar.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i swyddogion a'r swyddogion graddedig, sydd bellach wedi'u cyflogi gan y Cyngor, am nodi'r cynlluniau pŵer trydan dŵr ar raddfa fach ledled Rhondda Cynon Taf. Roedd y Cadeirydd yn gyffrous o weld bod tri safle llwyddiannus a bod y rhain wedi cael eu hargymell ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb, mynegodd y Cadeirydd ei chefnogaeth hi ar gyfer y cynlluniau yma.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg wedi adleisio sylwadau'r Cadeirydd ac roedd e'n falch o nodi bod pŵer trydan dŵr bellach ar agenda cynhyrchu ynni y Cyngor, yn dilyn cais yr Aelodau am adolygiad mewn perthynas â'r mater yma. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am botensial enfawr cynhyrchu trydan dŵr yn Rhondda Cynon Taf oherwydd y tywydd a'r deipograffeg, gan nodi ei fod e'n edrych ymlaen at glywed newyddion pellach yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelod o'r Cabinet bod swyddogion yn cyfathrebu gyda phob Aelod Lleol mewn perthynas ag unrhyw gynlluniau llwyddiannus, a hynny er mwyn hyrwyddo gwaith y Cyngor mewn perthynas â datgarboneiddio yn ein cymunedau lleol.

**PENDERFYNODD** Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad yn rhan o agenda gwaith Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd;
2. Cytuno ar wariant pellach wrth ddatblygu'r cynigion, fel sydd wedi'i nodi yn adran 6 ac adran 11, er mwyn cynnal astudiaethau dylunio pellach i asesu potensial llawn a datblygu cynigion prosiect manwl; a
3. Derbyn diweddariad pellach o bryd i'w gilydd mewn perthynas â chynnydd y cynigion, boed hynny fesul achos neu gyda'i gilydd.

**24 Fferm Solar Arfaethedig**

Rhoddodd Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon ddiweddariad pellach i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd mewn perthynas â'r gwaith sy'n cael ei gynnal i ddatblygu 'Fferm Solar ar y Tir' a fydd yn cael ei sefydlu ar dir y Cyngor yn ardal Coedelái, ar hen safle glofa 'teras' 84-erw, ger Tonyrefail. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fydd perchennog y cyfleuster yma

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am y diweddariad. Roedd y Cadeirydd yn falch o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar y fferm solar arfaethedig, a thynnodd sylw at y prosiect a fydd yn gwrthbwyso oddeutu 55,000 tunnell o garbon ac yn para 'o leiaf' 35 mlynedd.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden wedi nodi bod yr adroddiad yma'n cynnwys prosiect cyffrous arall, gan ganmol y swyddogion ar eu gwaith. Roedd yr Aelod o'r Cabinet o'r farn y bydd y cynlluniau sydd wedi'u nodi gan y Cyngor yn cynnig trafodaethau pwysig i blant ysgol ac yn rhan allweddol o'u dyfodol.

**PENDERFYNODD** Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad yn rhan o'r gwaith parhaus sy'n cael ei wneud wrth ymateb i dargedau newid hinsawdd a chytuno i fwrw ymlaen â chynigion y prosiect yn unol â chynnwys yr adroddiad; a
2. Derbyn adroddiad(au) pellach sy'n rhoi diweddariadau ychwanegol am gynnydd pan fydd hi'n addas.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.40pm**

**Y Cynghorydd C Leyshon**
**Cadeirydd.**